# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 6

TROSOLWG A CHRAFFU

## PENNOD 1

PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

*Dehongli*

### 80 Dehongli'r Bennod hon

Yn y Bennod hon—

ystyr "aelod cyfetholedig" (*"co-opted member"*), mewn perthynas â phwyllgor trosolwg a chraffu i awdurdod lleol, neu ag is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, yw person—

(a) sy'n aelod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor, ond

(b) nad yw'n aelod o'r awdurdod lleol;

mae i "pwyllgor trosolwg a chraffu" yr ystyr sydd i *"overview and scrutiny committee"* yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (gweler adran 21 o'r Ddeddf honno).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 80 mewn grym ar 11.5.2011, gweler **a. 178(1)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 05/05/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Dehongli.